Y Comisiwn Etholiadol
The Electoral Commission

David Rees AS
Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

29 Medi 2025

Annwyl Gadeirydd,

Amcangyfrif Blynyddol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2026-27


Mae'n bleser gennym amgáu Amcangyfrif Blynyddol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 i'w ystyried gan eich Pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys costau busnes craidd wedi'u dosrannu, costau digwyddiadau uniongyrchol a'n gwaith prosiect Cynllun Corfforaethol, sy'n gyfanswm o £3.609m. Mae hyn ychydig yn is na'r ffigur rhagamcanol o £3.9m a gynhwyswyd gennym yng Nghynllun Corfforaethol y DU ar gyfer 2025-30 a drafodwyd gyda chi a'ch Pwyllgor y llynedd.

Mae'r llythyr hwn yn disgrifio sut rydym wedi cyfrifo ein Hamcangyfrif, ac edrychwn ymlaen at ei drafod gyda chi ar 6 Tachwedd. Rydym wedi ystyried adborth blaenorol y Pwyllgor ar y cyflwyniad ac yn ymddiried bod y fformat hwn yn darparu eglurder ychwanegol ar ddyrannu costau busnes craidd yn erbyn costau digwyddiadau uniongyrchol ac amrywiant.

Cysylltwch â Rhydian Thomas, Pennaeth y Comisiwn Etholiadol, Cymru os gallwn ni helpu cyn y cyfarfod hwnnw.

Yr eiddoch yn gywir,





Yr Athro y Fonesig Elan Closs Stephens CBE

Comisiynydd Etholiadol, Cymru

Vijay Rangarajan

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Y Comisiwn Etholiadol
Llawr 3
James William House
9 Museum Place
Caerdydd CF10 3BD

The Electoral Commission
Floor 3
James William House
9 Museum Place
Cardiff CF10 3BD

Ffôn/Tel: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
infowales@electoralcommission.org.uk
electoralcommission.org.uk

1 Cynnwys

1. Trosolwg ariannol 3

2. Ymgyrchoedd buddsoddi allweddol 6

3. Cynllun Corfforaethol 10

4. Mesur perfformiad 11

5. Gwerth am arian 12

1. Trosolwg ariannol

Ffig. 1 – Cymhariaeth cyllideb 2025-26 – 2026-27

Cymru	2025-2026 £k	2026-2027 £k	Gwahaniaeth
Craidd	£1,315	£1,443	£127k
Digwyddiadau	£1,216	£1,860	£644k
Cynllun Corfforaethol	£211	£306	£95k
Cyfanswm	**£2,742**	**£3,609**	**£867k**

Costau craidd

Yr amcangyfrif ar gyfer 2026-27 o ran costau craidd y gellir eu priodoli i'r Senedd (a gyfrifwyd gan ddefnyddio 4.6% o gyfran y boblogaeth) yw £1,443k.

Mae hwn yn gynnydd o 9.7% o'i gymharu â 2025-26, a yrrwyd gan y nifer cynyddol o staff sy'n gweithio ar faterion ledled y DU fel y nodir yn ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer y DU, megis camwybodaeth a thwyllwybodaeth, gwybodaeth i bleidleiswyr, a cham-drin a bygwth ymgeiswyr. Bydd llawer o'r gwaith hwn o fudd i etholiadau mis Mai 2026 a'r gwaith wedi hynny. Er gwaethaf cynnydd mewn hyder o ran etholiadau ar ôl etholiad cyffredinol Senedd y DU, datgelodd ein harolwg blynyddol ynghylch agweddau'r cyhoedd mai dim ond 30% o'r cyhoedd yng Nghymru sy'n fodlon â'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio yn y DU, a bod pryderon ynghylch uniondeb etholiadau yn parhau.

Costau digwyddiadau

Yr amcangyfrif ar gyfer 2026-27 o ran costau digwyddiadau y gellir eu priodoli i'r Senedd yw **£1,860k (cynnydd o 53.0%).**

Ffocws gwaith y Comisiwn yng Nghymru yw cefnogi'n effeithiol y broses o gynnal etholiadau'r Senedd yn 2026 ac etholiadau Llywodraeth Leol yn 2027. Mae rhagor o fanylion isod am y llinellau cyllideb hynny lle mae cynnydd (mae'r ffigurau'n cynnwys costau digwyddiadau a chostau craidd cyfunol ym mhob maes gwaith).

Costau'r Cynllun Corfforaethol

Yr amcangyfrif ar gyfer 2026-27 o ran costau y gellir eu priodoli i'r Senedd ar gyfer gweithgaredd perthnasol yn ail flwyddyn y Cynllun Corfforaethol yw **£306k.** Mae adroddiad ar gynnydd y Cynllun Corfforaethol wedi'i gynnwys yn adran 3.

Cofrestru Pleidleiswyr yn Awtomatig

Gan nad yw gweithredu'r system cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig (AVR) yng Nghymru ar gyfer etholiadau lleol mis Mai 2027 wedi'i gadarnhau eto, nac ar ba ffurf y bydd, nid ydym wedi cynnwys ffigurau yn yr amcangyfrif hwn i dalu unrhyw gostau cysylltiedig posibl. Pan fydd y polisi hwn wedi'i egluro gan Lywodraeth Cymru, ac yn benodol sut y bydd yn rhyngweithio ag unrhyw system AVR ledled y DU yn ddiweddarach, dylem allu asesu'r effaith a byddwn yn dychwelyd i'r Pwyllgor gyda chais atodol os oes angen.

Fframweithiau strategol

Mae'r Amcangyfrif hwn wedi'i ategu gan ein Cynllun Corfforaethol Cymru pum mlynedd ar swyddogaethau datganoledig i Gymru. Cynhelir y cynllun presennol rhwng 2022-23 a 2026-27. Bydd y Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer Cymru yn cael ei ddrafftio, bydd ymgynghoriadau yn cael eu cynnal yn ei gylch a bydd y Cynllun yn cael ei osod yn dilyn etholiadau'r Senedd yn 2026.

Ein nod o hyd yw chwarae ein rhan i sicrhau gwydnwch y system etholiadol ac adeiladu Comisiwn Etholiadol cryfach i gyflawni hynny. Mae ein fframwaith strategol yn adlewyrchu gofynion gwahanol y Seneddau sy'n ein hariannu, ond mae llawer o'r themâu cyffredinol ym mhob cynllun yn gyson.

Mae ein rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026-27 yn cynnwys dau ddigwyddiad etholiadol yng Nghymru - etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026 ac etholiadau Llywodraeth Leol yn 2027. Mae'r digwyddiadau hyn yn golygu bod yr amcangyfrif cyllidebol ar gyfer 2026-27 yn cynrychioli uchafbwynt, ond bydd y ffigurau'n lleihau eto yn y blynyddoedd canlynol pan na fydd etholiadau.

Y prif ffactor sy'n achosi cynnydd yn ein costau craidd yn 2026-27 (£60k) yw costau sy'n gysylltiedig â thyfu'r Comisiwn. Mae cynnydd hefyd yng nghyfraniad y Senedd tuag at ail flwyddyn Cynllun Corfforaethol y DU lle byddwn yn gweld gwaith yn cael ei ymestyn, cyfran fwy o rolau ar waith a phrosiectau ar waith yn llawn.

Mae'r ffigur ar gyfer 2026-27 7% yn is na'r ffigur yng Nghynllun Corfforaethol y DU a gyhoeddwyd gennym y llynedd. Mae hyn yn rhannol oherwydd gostyngiadau a wnaethom i gostau disgwyliedig y digwyddiadau ar gyfer y ddau set o etholiadau wrth i ofynion penodol ddod yn gliriach - gan gynnwys newidiadau i ffrwd ariannu prosiectau a disodli prosiectau llai. Mae ein hamcangyfrif yn dilyn y Datganiad Egwyddorion Cyllido a nodwyd yn 2021 gan bob un o'r tri chorff cyllido sy'n ei gwneud yn ofynnol bod costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i etholiadau, a gweithgareddau adnabyddadwy ar wahân eraill o dan bwerau pob deddfwriaeth, yn cael eu cyllido gan y corff hwnnw, tra bod gwariant nad yw'n uniongyrchol briodoladwy yn cael ei rannu ar sail poblogaeth ym mhob gwlad.

Mae'r fformiwla ariannu ar gyfer yr amcangyfrif wedi'i haddasu o flwyddyn i flwyddyn i adlewyrchu meintiau poblogaeth pob un o'r tair senedd yn fwy cywir gan ddefnyddio data'r

Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae costau craidd y Comisiwn ar gyfer gweithgarwch a rennir - fel y gefnogaeth barhaus i bleidleiswyr, gweinyddwyr a'r gymuned reoledig, yn ogystal â'r costau corfforaethol sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r Comisiwn - yn cael eu dyrannu ar fformiwla yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth gan ddefnyddio ystadegau poblogaeth y SYG. Mae'r dyraniad i Gymru yn 4.6%, gydag 8.1% wedi'i ddyrannu i'r Alban ac 87.3% wedi'i ddyrannu i San Steffan. Lle mae galw penodol am waith ychwanegol sy'n effeithio ar randdeiliaid Cymru yn unig, h.y. etholiadau mis Mai 2026 ac etholiadau 2027, mae'r costau hyn wedi'u dyrannu 100% i'r senedd ddatganoledig o dan gostau digwyddiadau.

2. Ymgyrchoedd buddsoddi allweddol

Isod, mae esboniad o'r prif elfennau ysgogi o ran buddsoddi ar gyfer ein gweithgaredd i gefnogi cynnal etholiadau'r Senedd yn 2026 ac etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru ym mis Mai 2027. Caiff hyn ei ddadansoddi yn ôl y llinellau cyllideb yn y tabl Amcangyfrif. Mae'r holl ffigurau isod yn cynnwys cyfraniad y Pwyllgor at gostau craidd a chostau digwyddiadau ym mhob maes gweithgaredd.

Datganoli, Llywodraethu, a'r Gyfraith [£133k – cynnydd o 8k]

Cymru [£48k – cynnydd o 9k]

- Bydd Tîm Cymru'r Comisiwn yn rheoli rhaglenni gwaith i ymgysylltu â rhanddeiliaid o bob rhan o'r gymuned etholiadol. Yn 2026-27, bydd hyn yn cynnwys darparu cyngor, canllawiau a chefnogaeth i Swyddogion Canlyniadau / Swyddogion Cofrestru Etholiadol, y Bwrdd Rheoli Etholiadol, pleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid a Phwyntiau Cyswllt Sengl yr heddlu.
- Bydd y tîm hefyd yn cefnogi gweithredu newidiadau deddfwriaethol pellach o raglen diwygio etholiadol Llywodraeth Cymru yng Nghymru, gan gynnwys cyflwyno Bil i gryfhau atebolrwydd aelodau yn y Senedd a diweddariadau i reolau etholiadau lleol cyn etholiadau mis Mai 2027.
- Byddwn yn cefnogi'r ymgyrch ddwyieithog integredig ynglŷn â gwybodaeth a chofrestru pleidleiswyr cyn etholiadau mis Mai 2027 ac yn parhau i gynnal rhaglen ddwyieithog o ymgysylltu â phleidleiswyr a gwaith addysg gyda phobl ifanc, grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru a grwpiau sydd wedi ymddieithrio.
- Rydym yn parhau i reoli Uned Gyfieithu Cymraeg y Comisiwn, gan sicrhau bod yr holl ddeunydd perthnasol yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg ac yn parhau i gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- Bydd buddsoddiad cynyddol yn swyddfa Cymru ar gyfer 2026-27 yn ein galluogi i recriwtio dau aelod newydd o staff i gefnogi datblygiad Cynllun Corfforaethol Cymru a chynlluniau gwaith cysylltiedig.

Cyfreithiol [£59k - cynnydd o £5k]

- Bydd tîm cyfreithiol y Comisiwn yn parhau i gynghori ar gynigion ar gyfer diwygio etholiadol yng Nghymru yn 2026-27, yn ogystal â rhoi cyngor cyfreithiol cyffredinol a chyfredol ar ddeddfwriaeth Cymru, a chefnogi swyddogaethau'r Comisiwn fel y bônt yn ymwneud â Chymru (gan gynnwys cofrestru, rheoleiddio, polisi, gweinyddiaeth etholiadol, llywodraethu a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg).
- Yn 2026/27, mae'r gyllideb ar gyfer cyngor a chymorth cyfreithiol allanol wedi cynyddu ychydig yn unol â chwyddiant.

Cyfathrebu, polisi ac ymchwil [£2080k - cynnydd o £655k]

Ymgyrchoedd a Hunaniaeth Gorfforaethol [£1708k – cynnydd o £596k]

- Mae cyllideb ein hymgyrchoedd yn cyrraedd uchafbwynt yn 2026-27 er mwyn talu costau ail flwyddyn yr ymgyrch gofrestru ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026 a chostau ymgyrch blwyddyn un ar gyfer yr etholiadau Llywodraeth Leol yn 2027.
- Mae costau ymgyrch etholiadau'r Senedd yn cynnwys hysbysebu o 1 Ebrill 2026 hyd at y dyddiad cau ar gyfer cofrestru ar 20 Ebrill ac ymchwil olrhain ar ôl yr ymgyrch i'n helpu i werthuso perfformiad ein hymgyrch.
- Mae rhan un o gost etholiad lleol mis Mai 2027 yn cynnwys cynhyrchu/diweddaru'r deunydd creadigol ar gyfer yr ymgyrch, costau hysbysebu hyd at 31 Mawrth 2027, ymchwil olrhain cyn yr ymgyrch i sefydlu data sylfaenol, ac adnoddau gwybodaeth i bleidleiswyr fel posteri a graffeg cyfryngau cymdeithasol.
- Mae'r gyllideb hefyd yn talu costau unrhyw newidiadau angenrheidiol i ffurflenni sydd ar gyfer pleidleiswyr drwy gydol y flwyddyn ariannol oherwydd newid deddfwriaethol.

Cyfathrebu digidol ac ymgysylltu â phleidleiswyr [£184k - cynnydd o £13k ar 2025-26]

- Byddwn yn parhau i gyflawni rhaglen fanwl o waith addysg yn 2026-27. Bydd hyn yn cynnwys ein rhaglen Llais Ieuenctid a gyflwynir gan Plant yng Nghymru, digideiddio ein hyfforddiant i athrawon ac ymarferwyr ieuenctid a datblygu adnoddau addysg.
- Byddwn yn parhau i gyflawni prosiectau sy'n cefnogi grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru cyn etholiadau Llywodraeth Leol 2027, gan gynnwys dinasyddion tramor. Byddwn yn gwneud gwelliannau pellach i'n hadnoddau ar gyfer pleidleiswyr ag anghenion hygyrchedd ac yn darparu cymorth i bleidleiswyr sy'n cofrestru'n ddienw. Byddwn yn addasu'r gwaith hwn i ystyried cofrestru awtomatig os oes angen.
- Bydd y tîm Cyfathrebu Digidol yn datblygu ac yn cynnal ein gwefan ddwyieithog, ein hoffer digidol, a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol. Bydd mwy o ffocws ar greu cynnwys ar gyfer Cymru ac yn y Gymraeg cyn etholiadau mis Mai 2026, a chymorth i dimau ar draws y Comisiwn gyhoeddi gwybodaeth yn Saesneg ac yn y Gymraeg ar gyfer ein rhanddeiliaid, gan gynnwys pleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol ac ymgyrchwyr.

Cyfathrebu allanol [£74k - cynnydd o £8k ar 2025-26]

- Bydd y tîm Cyfathrebu Allanol yn darparu cymorth o ran cysylltiadau â'r cyfryngau a materion cyhoeddus i dîm Cymru cyn etholiadau 2026 a 2027 ac yn ymateb i ddeddfwriaeth sy'n deillio o raglen diwygio etholiadol y Llywodraeth.
- Mae'r cynnydd mewn cost yn cael ei yrru gan gyflogi staff gwybodaeth gyhoeddus dwyieithog dros dro wedi'u lleoli yn swyddfa Caerdydd i ddarparu cymorth a chanllawiau i bleidleiswyr dros y ffôn a thrwy e-bost cyn etholiadau 2026 a 2027.

Ymchwil [£74k - cynnydd o £34k ar 2025-26]

- Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cost casglu tystiolaeth a data gan bleidleiswyr, ymgeiswyr, ymgyrchwyr, a gweinyddwyr etholiadol i lywio'r adroddiad y byddwn yn ei lunio ar etholiadau'r Senedd. Bydd yr adroddiad yn ystyried effaith newidiadau i'r system bleidleisio etholiadol yn ogystal â gwneud argymhellion penodol ar gyfer gwelliannau ehangach i etholiadau.
- Byddwn hefyd yn cynnal gweithgareddau ymchwil rheolaidd gan gynnwys ein harolwg olrhain blynyddol ynghylch barn y cyhoedd, a'n harolwg o agweddau plant a phobl ifanc tuag at ddemocratiaeth a gwleidyddiaeth.

Polisi [£39k - cynnydd o £4k ar 2025-26]

- Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o weithgareddau polisi, gan gynnwys gwaith i gefnogi Llywodraeth Cymru a'r Senedd i ystyried cynigion polisi newydd a deddfwriaeth sy'n deillio o raglen diwygio etholiadol Llywodraeth y DU gan gynnwys cynlluniau peilot arfaethedig ar gyfer cofrestru etholiadol heb wneud cais am etholiadau a gedwir yn ôl.

Gweinyddiaeth Etholiadol a Rheoleiddio [£222k - cynnydd o £17k]

Cydymffurfiaeth Cofrestru [£59k - cynnydd o £11k ar 2025-26]

- Mae hyn yn cynnwys ein gwaith sy'n gysylltiedig â'r adrodd ariannol statudol sydd ei angen gan bleidiau gwleidyddol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ein hadroddiadau rhoddion a benthyciadau chwarterol, a'n cyflwyniad Datganiad Cyfrifon blynyddol. Mae hefyd yn cynrychioli'r gyfran honno o'r costau sy'n ymwneud ag adnewyddu manylion plaid gofrestredig yn flynyddol ac unrhyw newidiadau i fanylion cofrestru a wneir drwy gydol y flwyddyn.

Camau Rheoleiddio a Gorfodi [£61k - cynnydd o £5k ar 2025-26]

- Mae hyn yn cynnwys y costau sy'n gysylltiedig â gwaith cydymffurfio a gorfodi sy'n deillio o bleidiau ac ymgyrchwyr yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys monitro gweithgarwch ymgyrchu pleidiau ac ymgyrchwyr yng Nghymru. Mae ein gwaith monitro yn ein helpu i adnabod ymgyrchwyr a allai fod angen ein cefnogaeth i gydymffurfio. Mae hefyd yn cefnogi ein gwaith ymyrryd a gorfodi, os yw'n ofynnol.
- Byddwn yn defnyddio Panel Pleidiau'r Senedd i ymgysylltu â'r pleidiau gwleidyddol mwy a gynrychiolir yn y Senedd i'w cefnogi nhw a'u hymgeiswyr yn y ffordd orau bosibl i ymdopi â'r heriau cynyddol y maent yn eu hwynebu. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â phleidiau llai yng Nghymru ac ymgeiswyr annibynnol gan ddarparu cyngor a chanllawiau wedi'u teilwra i anghenion yng Nghymru, cyhoeddi manylion rhoddion, benthyciadau a chyfrifon blynyddol pleidiau, a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth gyda chyfraith cyllid ariannol.

Cymorth rheoleiddio [£46k - cynnydd o £4k ar 2025-26]

- Mae hyn yn cynrychioli'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu canllawiau i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol Cymru yn 2027. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi'r rhaglen diwygio etholiadol yng Nghymru a diweddaru ein hadnoddau canllawiau craidd yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol neu adborth. Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth cynghori trwy gydol y flwyddyn i bleidiau a gweithredwyr, sy'n ateb eu hymholiadau ac yn cynnig cymorth wedi'i deilwra a'i dargedu drwy weminarau a chymorthfeydd cynghori. Byddwn hefyd yn darparu pecynnau hyfforddi pwrpasol wedi'u teilwra i bob plaid. Mae hyn yn sicrhau bod y gymuned a reoleiddir yn deall y cyfreithiau, eu rhwymedigaethau a'u nodau i gefnogi lefelau uchel o gydymffurfiaeth.

Cryfhau'r Comisiwn Etholiadol drwy fuddsoddi mewn swyddogaethau craidd [£868k - cynnydd o £91k]

- Rydym yn parhau i gryfhau'r Comisiwn drwy fuddsoddi yn ein staff ac mewn TG gwydn, cyllid a swyddogaethau cymorth eraill. Gyda'r Comisiwn yn tyfu dros 50% dros gyfnod 25-26 a 26-27, fel y nodir yng Nghynllun Corfforaethol 25-30, mae costau i gefnogi'r Comisiwn wedi tyfu yn unol â'r twf sylweddol hwn.
- Mae ein costau craidd ychwanegol yn 2026-27 yn cynnwys cynnydd mewn cyflogau a chostau Yswiriant Gwladol uwch; darpariaeth llety gwell i gefnogi twf y sefydliad (ar ffurf costau dibrisiant, llog a TAW uwch o dan IFRS16); a chostau TG uwch oherwydd bygythiadau parhaus, pwysau chwyddiant a chynyddu maint y Comisiwn. Bydd cryfhau'r Comisiwn Etholiadol yn y modd hwn yn ein galluogi i barhau i gyflawni ein gwaith rheoleiddio, canllawiau, gwerthuso, ymchwil, ymgyrchoedd, a chyfathrebu i gefnogi cyflawni etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026 ac etholiadau Llywodraeth Leol mis Mai 2027 yng Nghymru.
- Byddwn yn buddsoddi mewn offer TG ar gyfer ein staff ac yn canolbwyntio ar foderneiddio technoleg. Byddwn yn parhau i wella ein diogelwch TG a sicrhau ein bod yn cynnal ein hanfodion seiber ynghyd â'n hardystiad yn ogystal â recriwtio staff cymorth TG ychwanegol.
- Yn y tîm Cyllid, byddwn yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn capasiti a gallu i helpu'r Comisiwn i fodloni ei ofynion adrodd. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn arbenigwyr caffael i helpu i hyrwyddo arferion gorau a chwilio am effeithlonrwydd. Yn y tîm Adnoddau Dynol, rydym yn cryfhau ein tîm i sicrhau ein bod yn cyflogi'r ymgeiswyr gorau posibl o bob rhan o'r DU, gan gynnwys o Gymru, a chaniatáu ar gyfer datblygiad o fewn y Comisiwn.
- Yn ogystal â'r ffigurau uchod i gefnogi gweithgareddau Craidd, mae gennym £306k wedi'i ddyrannu ar gyfer Cynllun Corfforaethol y DU, sydd £95k yn uwch nag yn 2025-26. Mae'r ffigur hwn yn is nag a ddarparwyd yn flaenorol, fel y gwelir yn adran 5, a darperir rhagor o fanylion am wariant y cynllun corfforaethol yn adran 3 isod.

3. Cynllun Corfforaethol

Cynnydd ar Gynllun Corfforaethol y DU

Yn gynharach eleni, fe wnaethon ni rannu ein Cynllun Corfforaethol 2025-2030 ar gyfer y DU gyda chi, gan nodi pum amcan strategol sydd ag effaith ar etholiadau a gynhelir yng Nghymru:

1. Cefnogi pleidleiswyr a chynyddu cyfranogiad
2. Moderneiddio'r system etholiadol
3. Diogelu'r system
4. Arwain dadl wybodus am ddyfodol etholiadau
5. Cryfhau'r Comisiwn Etholiadol

Mae blwyddyn gyntaf cynllun newydd y DU wedi mynd rhagddi'n dda. Rydym wedi sefydlu portffolio o bedair rhaglen sydd gyda'i gilydd yn cynrychioli rhaglen uchelgeisiol o newid a gynlluniwyd i'n helpu i gyflawni'r pum amcan strategol hyn:

6. **Moderneiddio cyfreithiol:** rydym yn ystyried sut y gellid moderneiddio cyfraith etholiadol ymhellach
7. **Moderneiddio digidol:** rydym yn archwilio'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol i wella effeithlonrwydd fel rhan o strategaeth ehangach o welliant parhaus. Mae seiberddiogelwch wrth wraidd y gwaith hwn
8. **Arweinyddiaeth ystyriol:** rydym yn buddsoddi'n sylweddol yn ein gallu i weithredu fel awdurdod annibynnol dibynadwy
9. **Trawsnewid systemau:** rydym yn buddsoddi mewn systemau olrhain ariannol, caffael a pherfformiad newydd i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

Mae hyn yn cynrychioli darn arwyddocaol o reoli newid yn y sefydliad. Rydym wedi rhoi trefniadau prosiect ar waith i'n helpu i reoli'r twf hwnnw'n rhagweithiol a sicrhau ei fod yn darparu sail gadarn ar gyfer y newidiadau pellach sy'n debygol o fod ar y gweill ym Mil Diwygio Etholiadol Llywodraeth y DU.

Camau nesaf ar gyfer Cynllun Corfforaethol Cymru

Fel y soniwyd yn flaenorol, bydd Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer Cymru yn cael ei ddrafftio, bydd ymgynghoriadau yn cael eu cynnal yn ei gylch a bydd y Cynllun yn cael ei osod yn dilyn etholiadau'r Senedd yn 2026. Bydd hyn yn adlewyrchu amcanion strategol y Comisiwn cyfan, gan ystyried blaenoriaethau a chynlluniau Llywodraeth newydd Cymru a ffurfir ar ôl etholiad 2026. Rydym eisoes wedi dechrau gwaith cwmpasu ar Gynllun Corfforaethol Cymru ar gyfer 2027/28 – 2031/32, a byddwn yn ei gyflwyno i Bwyllgor y Llywydd gyda'n Hamcangyfrif ym mis Medi 2026.

4. Mesur perfformiad

Fel y nodir yn adran 3, rydym wedi ymgymryd â rhaglen uchelgeisiol o newid drwy ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer y DU. Mae dangos manteision y newidiadau hyn a'r gwelliannau yr ydym yn disgwyl eu gweld yn ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd yn hanfodol. Rydym wedi buddsoddi yn ein gallu i olrhain manteision fel bod y manteision hyn wedi'u hymgorffori yn ein holl raglenni a bod modd eu hadnabod yn glir.

Rydym yn asesu llwyddiant ein darpariaeth mewn dwy ffordd. Y cyntaf yw drwy set o Ddangosyddion System Allweddol, ar gyfer y DU ac ar gyfer ei rhannau cyfansoddol. Mae'r rhain yn ddangosyddion blynyddol sy'n mesur iechyd cyffredinol y system etholiadol. Wrth gwrs, mae hon yn system lle mae llawer o chwaraewyr, ar lefel sefydliadol ac unigol. Nid yw'r dangosyddion hyn yn mesur ein llwyddiant fel sefydliad. Fodd bynnag, maen nhw'n darparu gwybodaeth hanfodol i asesu iechyd y system etholiadol ac arwain penderfyniadau yn y dyfodol.

Rydym yn asesu ein darpariaeth ein hunain drwy ystod o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a asesir ar lefel y DU a lefel genedlaethol ac a fesurir yn chwarterol i raddau helaeth. Fe wnaethon ni gyrraedd 22 allan o 25 o dargedau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Lle na chyflawnwyd ein targed, roedd o leiaf rhywfaint o'r amrywiant oherwydd nifer fach iawn o achosion lle'r oedd oedi a arweiniodd at effaith fawr ar y ffigurau. Lle rydym wedi nodi problemau cyflawni yn ein prosesau, rydym wedi cymryd camau lliniaru, er enghraifft drwy recriwtio mwy o staff.

5. Gwerth am arian

Mae gallu'r Comisiwn i ddangos gwerth am arian yn dibynnu ar ein gallu i optimeiddio arferion caffael, rheoli contractau yn effeithlon, rheoli risgiau, monitro a gwella perfformiad, a gwneud penderfyniadau gwybodus am ddyraniad adnoddau trwy flaenoriaethu effeithiol, tra'n sicrhau bod rheolaethau ariannol a TG ar waith ac yn gweithio'n effeithiol. Byddwn yn ceisio sicrhau ein bod nid yn unig yn cyflawni ein hamcanion ond yn gwneud hynny mewn modd cost-effeithiol ac effeithlon, gan ysgogi enillion mewn gwerth cyhoeddus yn y pen draw.

Cymru	26/27 Newydd (£k)	26/27 Cynllun 5 Mlynedd (£k)	Amrywiant (£k)	Amrywiant (%)
Craidd	£1,443	£1,391	£51	3.7%
Digwyddiadau	£1,860	£2,091	-£231	-11.1%
CC	£306	£395	-£89	-22.5%
Cyfanswm	£3,609	£3,878	-£269	-6.9%

Mae'r tabl uchod yn tynnu sylw at unrhyw symudiadau rhwng yr Amcangyfrif hwn a'r ffigurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn ein Cynllun Corfforaethol pum mlynedd. Yn dilyn cyflwyno'r cynllun 5 mlynedd ochr yn ochr â chyllideb 25/26, mae'r Comisiwn Etholiadol yn ymdrechu i gynnal Amcangyfrifon yn unol â'r safbwynt 5 mlynedd cyn belled ag y bo modd. Felly, rydym wedi cyflawni cyllideb sydd 7% yn is na'r amcangyfrifon blaenorol, gan amlygu ein hymdrech i gyflawni gwerth am arian. Mae costau craidd wedi cynyddu, er bod hyn yn unol â chwyddiant (nad oedd wedi'i gynnwys yn ffigurau'r cynllun 5 mlynedd), tra bod costau Digwyddiadau a chostau'r Cynllun Corfforaethol wedi gostwng yn dilyn adolygiad parhaus o eitemau a gynlluniwyd a'u halinio â darparu gwerth am arian.

Yn dilyn gwersi a ddysgwyd o gylchoedd cyllid blaenorol, mae'r modelau cyllideb a ailadeiladwyd wedi caniatáu amser ychwanegol ar gyfer craffu pellach ar y ffigurau a nifer o rowndiau o herio mewnol i sicrhau bod costau'n gadarn ac yn darparu gwerth am arian, gan ganiatáu inni nodi arbedion lle gallwn o fewn y Comisiwn.

Er gwaethaf pwysau chwyddiant uchel parhaus, yn enwedig ar wariant TG, sy'n effeithio ar gostau tâl a di-dâl y Comisiwn dros y tair blynedd diwethaf, byddwn yn parhau i geisio lliniaru chwyddiant lle bynnag y bo modd. Mae cost fel cyfartaledd fesul aelod o'r boblogaeth yng Nghymru, o fewn y costau craidd, wedi cynyddu o **42c i 46c**, sy'n cyfateb i lefelau gwariant 24-25.